

## PRIFFYRDD CYMRU

2011 Rhif 46

### **GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD CAERSŴS I FACHYNLLETH (YR A489) LLWYBR TROED/BEICIO CYFUN PENEGOES I FACHYNLLETH) 2011**

#### **DEDDF PRIFFYRDD 1980 a DEDDF CAFFAEL TIR 1981**

*Gwnaed 7 Hydref 2011*

Mae Gweinidogion Cymru (a elwir yn y Gorchymyn hwn “yr awdurdod caffael”) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn -

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, mae'r awdurdod caffael, o dan adrannau 239 o Ddeddf Priffyrdd 1980(1) ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981(2) a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 iddi, a phob pŵer galluogi arall(3), drwy hyn wedi ei awdurdodi i brynu'r tir a ddisgrifir ym mharagraff 2 yn orfodol at ddibenion:

- (a) adeiladu troetffordd/ ffordd feiciau gyfun yng Nghymuned Penegoes yn Sir Powys;
- (b) defnydd gan Weinidogion Cymru yn gysylltiedig â gwneud y gwaith a grybwyllir uchod.

2. Y tir yr awdurdodwyd ei brynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlen sydd gyda'r Gorchymyn ac a amlinellir ac a ddangosir â lliw pinc ac ymyl coch ar y map y paratowyd dau gopi ohono, a'i farcio “Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caersŵs i Fachynlleth (yr A489) Llwybr Troed/ Beicio Cyfun Penegoes I Fachynlleth) 2011”.

3. Ymgorfforir drwy hyn Rannau II a III o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 yn y Gorchymyn hwn yn

---

(1) 1980 p.66.

(2) 1981 p.67.

(3) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ddarostyngedig i'r addasiadau canlynol, sef bod rhaid dehongli cyfeiriadau yn y Rhannau hynny o'r Atodlen honno at yr ymgymeriad fel cyfeiriadau at y tir yr awdurdodir ei brynu.

4. At ddibenion y darpariaethau yn Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981, fel y'u hymgorfforir yn y Gorchymyn hwn, y pellter a ragnodir mewn perthynas ag unrhyw wythien o fwynau sy'n gorwedd o dan y tir sy'n cyffinio â'r gwaith fydd yn cael ei godi ar y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn fydd y pellter ochrol o'r gwaith hwnnw ar bob ochr i'r gwaith hwnnw ag sy'n gymesur ar bob pwynt ar hyd y gwaith hwnnw â hanner dyfnder yr wythien o dan wyneb naturiol y ddaear ar y pwynt hwnnw neu 37 o fetrau, p'un bynnag yw'r mwyaf.

5. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y map" (*"the map"*) yw'r map sydd wedi'i farcio "Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caersŵs i Fachynlleth (yr A489) Llwybr Troed/ Beicio Cyfun Penegoes I Fachynlleth) 2011" ac a lofnodwyd gan swyddog o'r awdurdod;

ystyr "y gefnffordd" (*"the trunk road"*) yw Cefnffordd Caersŵs i Fachynlleth (yr A489).

6. Enw'r Gorchymyn hwn yw "Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caersŵs i Fachynlleth (yr A489) Llwybr Troed/ Beicio Cyfun Penegoes i Fachynlleth) 2011".

Llofnodwyd gan swyddog o Lywodraeth Cymru ar ran Gweinidogion Cymru

G MORGAN  
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith  
Llywodraeth Cymru

Dyddiedig 7 Hydref 2011